# Datganiad preifatrwydd/prosesu teg
# Gwasanaeth Bathodyn Glas

## Beth sy'n digwydd i wybodaeth a gedwir amdanoch chi?  Eich hawliau a'n rhwymedigaethau i chi.

### Sut ydym ni'n defnyddio data personol

Mae'r ddogfen hon yn egluro sut mae Gwasanaeth Bathodyn Glas Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC) yn casglu, cadw, defnyddio a datgelu gwybodaeth am bobl (eu data personol), y camau a gymerir i sicrhau y diogelir yr wybodaeth, ac mae hefyd yn disgrifio'r hawliau sydd gan unigolion mewn perthynas â'u data personol a gedwir gan BCBC.

Llywodraethir defnyddio a datgelu data personol gan ddeddfwriaeth Diogelu Data. O ganlyniad mae rheidrwydd ar BCBC i sicrhau ei fod yn trin pob data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Mae BCBC yn cymryd y cyfrifoldeb hwnnw o ddifrif calon ac mae'n ofalus iawn i sicrhau y caiff data personol ei drin mewn modd priodol er mwyn sicrhau a chadw ymddiriedaeth a hyder unigolion yn y Cyngor.

Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn orfodol i BCBC gael sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol yn dibynnu ar y gwasanaeth a ddarperir.

### Pam ydym ni'n trin data personol?

Bydd Gwasanaeth Bathodyn Glas BCBC yn casglu, prosesu a storio gwybodaeth bersonol amdanoch er mwyn prosesu eich ceisiadau am fathodyn glas, sydd wedi'i gynllunio i alluogi pobl anabl sydd â chyflwr sy'n effeithio ar eu symudedd i gael gafael ar nwyddau a gwasanaethau, drwy ganiatáu iddynt barcio'n agos at eu cyrchfan. Mae'r cynllun yn darparu ystod genedlaethol o drefniadau parcio ar y stryd ar gyfer deiliaid Bathodyn Glas.

Gan fod gennym sail statudol ar gyfer casglu eich data personol, nid oes angen i ni ofyn am eich caniatâd i'w rannu, ond dim ond ar sail angen y byddwn byth yn rhannu eich data, yn unol â deddfwriaeth a byddwn yn gweithio'n dryloyw gyda chi bob amser.

Os na fyddwch yn darparu eich data, ni fyddwn yn gallu prosesu eich cais.

### Pa fath/dosbarthiadau o ddata personol ydym ni'n ei drin?

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir o dan adran 1 uchod, gall BCBC gasglu, defnyddio a datgelu data personol yn cynnwys y canlynol:

- Manylion personol – enw, cyfeiriad, dyddiad geni, rhywedd, rhif Yswiriant Gwladol, man geni, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost
- manylion cyswllt ar gyfer aelodau o'ch teulu a'ch rhwydwaith cymorth os hoffech iddynt eirioli drosoch

- copïau o ddogfennau sy'n dangos eich prawf adnabod (er enghraifft, pasbort, tystysgrif geni)
- copïau o ddogfennau sy'n dangos eich cyfeiriad (er enghraifft, bil y dreth gyngor, llythyr budd-daliadau, trwydded yrru, slipiau cyflog)
- llun ohonoch

Rydym hefyd yn casglu'r data categori arbennig canlynol:

- gwybodaeth feddygol a ddarperir gennych i gefnogi eich cais
- os yw'n berthnasol, copïau o ddogfennau sy'n dangos eich bod yn gymwys i gael budd-dal sy'n eich cymhwyso'n awtomatig i gael Bathodyn Glas

Efallai y cawn hefyd afael ar eich gwybodaeth bersonol mewn ceisiadau a anfonir ymlaen gan GOV.UK lle cyflwynir cais ar-lein drwy'r wefan honno.

Dim ond data personol priodol sy'n ofynnol i gyflawni diben penodol y bydd BCBC yn ei ddefnyddio. Gallai data personol fod yn wybodaeth a gedwir ar gyfrifiadur, mewn cofnod papur h.y. ffeil, fel delweddau, ond gall hefyd gynnwys mathau eraill o wybodaeth a gedwir yn electronig.

**O ble ydym ni'n cael data personol?**

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir o dan adran 1 uchod, gall BCBC gael gafael ar ddata personol gan amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys y canlynol:

- Yn uniongyrchol gan y sawl sy'n gwneud y cais;
- Unigolion eu hunain;
- Perthnasau, gwarcheidwaid neu bersonau eraill sy'n gysylltiedig â'r unigolyn;
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau;
- Cyllid a Thollau EM;
- Sefydliadau a phobl sy'n gweithio o fewn y Cyngor sydd wedi eu cymeradwyo;
- Llywodraeth ganolog, asiantaethau ac adrannau llywodraethol;
- Cynghorwyr neu ymarferwyr gofal iechyd, cymdeithasol a llesiant;
- Ymgynghorwyr meddygol a meddygon teulu;
- Llywodraeth leol;
- Proseswyr Data, sy'n gweithio ar ran BCBC;
- Adrannau eraill o fewn y Cyngor;

Gall BCBC hefyd gael gafael ar ddata personol gan ffynonellau eraill fel ei systemau CCTV ei hun, neu ohebiaeth.

**Sut ydym ni'n trin data personol?**

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir yn adran 1, bydd BCBC yn trin data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Yn benodol, byddwn yn sicrhau bod data personol yn cael ei drin yn deg ac yn gyfreithlon gyda chyfiawnhad priodol. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod unrhyw ddata personol a ddefnyddir gennym neu ar ein rhan o'r ansawdd uchaf yn nhermau cywirdeb, perthnasedd, digonolrwydd a pheidio â bod yn ormodol, y caiff ei gadw mor gyfredol ag sy'n ofynnol, y caiff ei ddiogelu mewn

modd priodol, ac y caiff ei adolygu, ei gadw a'i ddinistrio'n ddiogel pan nad oes ei angen mwyach.

**Sut ydym ni'n sicrhau diogelwch data personol?**

Mae BCBC yn cymryd diogelwch pob data personol dan ein rheolaeth yn ddifrifol iawn. Byddwn yn sicrhau bod mesurau polisi, hyfforddiant, technegol a gweithdrefnol yn eu lle, gan gynnwys archwilio a monitro uniondeb, i ddiogelu ein systemau gwybodaeth â llaw ac electronig rhag colli a chamddefnyddio data. Byddwn ond yn caniatáu mynediad atynt pan fo rheswm dilys dros wneud hynny, ac yna dan ganllawiau llym o ran pa ddefnydd y gellir ei wneud o unrhyw ddata personol a gedwir ynddynt. Caiff y gweithdrefnau hyn eu rheoli a'u gwella'n barhaus i sicrhau diogelwch cyfredol.

Mae gennym hefyd weithdrefnau yn eu lle i ddelio ag unrhyw achosion honedig o dorri diogelwch data. Byddwn yn rhoi gwybod i chi ac unrhyw reolydd perthnasol bod hyn wedi digwydd pan fo gofyn cyfreithiol arnom i wneud hynny.

**I bwy ydym ni'n datgelu data personol?**

Weithiau mae angen i ni rannu gwybodaeth gyda'r unigolion rydym yn prosesu gwybodaeth amdanynt a sefydliadau eraill. Lle bo angen gwneud hyn, mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â phob agwedd ar y ddeddfwriaeth. Yr hyn sy'n dilyn yw disgrifiad o'r mathau o sefydliadau y gallai fod angen i ni rannu rhywfaint o'r wybodaeth bersonol yr ydym yn ei phrosesu â nhw am un neu fwy o resymau:

- Swyddfa'r Cabinet ar gyfer paru data o dan y Fenter Twyll Genedlaethol
- y Gwasanaeth Cynghori Annibynnol (IAS) os cânt eu hasesu fel cais dewisol
- awdurdodau lleol eraill sy'n gweinyddu neu'n gorfodi gwasanaeth y Bathodyn Glas os symudwch i'w hardal neu os ydych yn defnyddio'r Bathodyn Glas yn eu hardal
- eraill mewn perthynas ag ymholiadau a godwyd ar ran ymgeiswyr (fel cynghorwyr lleol, aelodau o'r teulu, mudiadau gwirfoddol
- asiantaethau partner ar gyfer prosesu ceisiadau
- heddlu ar gyfer gorfodi parcio ac atal a chanfod troseddau
- Gweithwyr gofal iechyd, cymdeithasol a llesiant proffesiynol
- Llywodraeth Cymru a llywodraeth ganolog
- Proseswyr data
- Awdurdodau gorfodi'r gyfraith ac erlyn
- Gwasanaethau eraill y cyngor
- Awdurdodau lleol eraill

Mae'r rhannu data hwn yn ein galluogi i brosesu a diogelu'r cynllun Bathodyn Glas ar eich cyfer chi ac ymgeiswyr eraill.

**Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio'r wybodaeth hon?**

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, dim ond os oes gennym reswm priodol a chyfreithlon dros wneud hynny y caniateir i ni ddefnyddio a rhannu gwybodaeth bersonol. Y sail gyfreithlon i ni ddefnyddio'ch gwybodaeth yw er mwyn bodloni ein rhwymedigaeth gyfreithiol o dan Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl (1970).

Mae gennym rwymedigaeth statudol i gadw cofrestr sy'n dangos deiliaid bathodynnau a gyhoeddir gan yr awdurdod. Rydym yn gyfrifol am bennu a gweithredu gweithdrefnau gweinyddol, asesu a gorfodi yn unol â'r ddeddfwriaeth, Rheoliadau Pobl Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000.

**Beth yw eich hawliau mewn perthynas â'ch data personol a gaiff ei drin gan BCBC?**

Mae gan unigolion hawliau amrywiol:

1. Yr hawl i gael eich hysbysu
2. Yr hawl i gael mynediad
3. Yr hawl i gywiro
4. Yr hawl i ddileu
5. Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
6. Yr hawl i gludadwyedd data
7. Yr hawl i wrthwynebu
8. Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd

Yr hawl i gael eich hysbysu

Mae gennych hawl i gael gwybod bod eich data personol yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio. Rhaid i'r Cyngor roi gwybodaeth i chi gan gynnwys: y dibenion ar gyfer prosesu eich data personol, cyfnodau cadw ar gyfer y data hwnnw, a gyda phwy y caiff ei rannu. Gelwir hyn yn 'gwybodaeth am breifatrwydd'.

Hawl mynediad

Gallwch gael copi, yn amodol ar eithriadau, o'ch data personol a gaiff ei gadw gan y Cyngor. Mae copi o'r ffurflen gais ar gael o:
https://www.bridgend.gov.uk/my-council/freedom-of-information/data-protection/

Lle mae hynny'n digwydd, mae gennych hawl i'r wybodaeth ganlynol yn amodol ar eithriadau:

- Y dibenion a'r sail gyfreithiol dros brosesu
- Y categorïau o ddata personol dan sylw
- Y derbynwyr y datgelwyd y data personol iddynt
- Y cyfnod y rhagwelir y caiff y data personol ei gadw
- Cyfathrebu'r data personol sy'n cael ei brosesu ac unrhyw wybodaeth sydd ar gael am ei darddiad.

**Dylid nodi bod 'prosesu' yn golygu gweithred neu set o weithrediadau a berfformir ar ddata personol megis casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, addasu, newid, dileu, cyfyngu, adalw.*

Gall fod angen tystiolaeth o bwy ydych ac unrhyw wybodaeth arall sydd ei hangen i ganfod yr wybodaeth cyn y gall y Cyngor gydymffurfio â'ch cais.

Dylid gwneud unrhyw gais am yr wybodaeth uchod drwy ysgrifennu at y Swyddog Diogelu Data a bydd y Cyngor yn ymateb o fewn un mis.

Unioni data

Gallwch ofyn i'r Cyngor unioni data personol anghywir yn ymwneud â chi. Os yw'r data'n anghywir oherwydd ei fod yn anghyflawn, y mae rhaid i'r Cyngor ei gwblhau os ydych yn gofyn iddynt wneud hynny.

Dylid gwneud cais ysgrifenedig i'r Swyddog Diogelu Data ac anfonir ymateb o fewn un mis.

Dileu neu gyfyngu data personol

Gallwch ofyn i'r Cyngor ddileu eich data neu gyfyngu unrhyw brosesu ar eich data, gydag eithriadau.

Dylid gwneud pob cais i'r Swyddog Diogelu Data. Bydd y Cyngor wedyn yn eich hysbysu os cymeradwywyd y cais ac os cafodd ei wrthod, y rhesymau dros ei wrthod.

Hawl i beidio â bod yn wrthrych gwneud penderfyniadau awtomatig

Mae gennych yr hawl, gydag eithriadau, i beidio â bod yn wrthrych penderfyniad pan mae'n seiliedig ar brosesu awtomatig ac mae'n cael effaith gyfreithiol neu effaith sylweddol debyg arnoch. Mae gennych hawl i fynegi eich safbwynt a chael esboniad gan y Cyngor ar ei benderfyniad a'i herio. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r hawl hwn yn berthnasol i bob penderfyniad gan fod eithriadau, er enghraifft awdurdodiad gan y gyfraith, perfformiad contract yr ydych yn barti iddo.

Yr hawl i gludadwyedd data

Mae'r hawl i gludadwyedd data yn eich galluogi i gael ac ailddefnyddio eich data personol at eich dibenion eich hun ar draws gwahanol wasanaethau.

Dim ond i wybodaeth rydych wedi'i darparu i'r Cyngor y mae'r hawl yn berthnasol.

Yr hawl i wrthwynebu

Mae gennych yr hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol mewn rhai amgylchiadau.
Mae gan y Cyngor un mis calendr i ymateb i wrthwynebiad.

**Am ba mor hir mae BCBC yn cadw data personol?**

Mae BCBC yn cadw data personol cyhyd ag sydd angen ar gyfer diben neu ddibenion neilltuol y caiff ei gadw ar eu cyfer yn unol â Pholisi Cadw'r Cyngor.

**Cysylltwch â Ni**

Gall unrhyw unigolyn sydd â phryderon am y ffordd mae BCBC yn trin eu data personol gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn y Cyngor fel islaw:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfa Gwybodaeth
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

E-bost: foi@bridgend.gov.uk
Ffôn: 01656 643565

Gallwch hefyd godi pryderon gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru
2il lawr
Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Ffôn: 02920 678400
Ffacs: 02920 678399
E-bost: wales@ico.org.uk
Gwefan: https://ico.org.uk/